

P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 4,052 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae plwm yn fetel gwenwynig ac yn wenwyn cryf iawn, ond eto i gyd mae dros 6,000 tonnall yn cael eu tanio at adar hela bob blwyddyn yn y DU. Pe bai unrhyw ddinesydd yn gollwng miloedd o dunelli o wenwyn yn fwriadol i gefn gwlad Cymru, byddai'n cael ei hun o flaen ei well mewn llys barn, fel sy'n briodol.

Mae adar yn aml yn camgymryd pelenni saethu bach am raeau neu hadau ac yn eu hamlyncu, gan ddioddef marwolaethau poenus o ganlyniad. Mae adar sy'n marw fel arfer yn cael eu cipio'n gyflym gan ysglyfaethwyr – sy'n golygu eu bod nhw'n marw o olwg y cyhoedd.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Yn draddodiadol mae'r mwyafrif o ffrwydron – bwledi, pelenni gwn saethu a phelenni gwn aer, wedi'u gwneud â phlwm.

Mae plwm yn effeithio ar y rhan fwyaf o systemau'r corff mewn anifeiliaid, gan gynnwys y systemau nerfol a chylchrediad y gwaed, a gall dod i gysylltiad ag ef ar lefel isel effeithio ar system imiwnedd ac ymddygiad adar. Mewn rhai amgylchiadau, gall llyncu un belen plwm, hyd yn oed, ladd aderyn.

Mae consortiwm o sefydliadau saethu bellach yn cefnogi newid i ffrwydron di-blwm at ddefnydd pawb sy'n saethu prae byw gyda gynnu yn y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r difrod y mae plwm yn ei wneud i'n hamgylchedd, ond rydym o'r farn bod yr argyfwng ecolegol yn mynnu ein bod yn gosod gwaharddiad ar unwaith ar ffrwydron plwm o bob math. At hynny, credwn fod yn rhaid i'r gwaharddiad gynnwys saethiadau clai ac nid

"prae byw" yn unig, gan fod y ffrwydron plwm a wastraffwyd yn dal i aros yn yr amgylchedd.

Mae Barry Action yn grŵp cadwraeth gwirfoddol bach sydd wedi'i leoli yn un o drefi arfordirol de Cymru, Barri.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru